



Cynllun Monitro Peillwyr y DU: Cyfrif Blodau-Pryfed wedi ei Amseru

Mae llawer o blanhigion gwyllt ac amaethyddol yn dibynnu ar bryfed i beillio eu blodau, gyda pheillio llwyddiannus yn arwain at greu hadau neu ffrwythau. Mae pryderon y gallai nifer y pryfed peillio fel gwenyn a chlêr fod yn gostwng, ond mae angen mwy o ddata arnom i allu olrhain newidiadau yn eu llawnder ar draws y wlad. Mae'r Cyfrif Blodau-Pryfed wedi ei Amseru (Cyfrif FIT) wedi ei ddylunio i gasglu data newydd ar niferoedd y pryfed sy'n ymwneud â blodau, fel rhan o set ehangach o arolygon yn unol â [Chynllun Monitro Peillwyr y DU](#) (PoMS).



*Cacynen ar flodyn Mieri (llun gan
Nadine Mitschunas)*

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gynnal Cyfrif FIT. Nid yw'r Cyfrif yn anodd ei wneud, ond mae angen i ni gasglu data mor ofalus â phosibl er mwyn gallu ei ddadansoddi i ddarparu gwybodaeth am newidiadau posibl i niferoedd pryfed. Dilynwch y canllaw hwn mor agos ag y gallwch.

Cynllunio eich Cyfrif FIT

Beth fydd ei angen arnaf i gynnal arolwg?

- Mae angen tua 15 munud arnoch – bydd y cyfrif ei hun yn cymryd 10 munud.
- Mae angen cynnal cyfrifon rhwng dechrau Ebrill a diwedd Medi, mewn tywydd sych a chymharol gynnes, gweler y tywydd isod.
- Bydd angen i chi ddod o hyd i leoliad yn cynnwys rhywogaeth blodau targed i'w gwyllo yn ystod y Cyfrif FIT. Gall hyn fod mewn gardd neu barc, yng nghefn gwlad neu mewn gwarchodfa natur – unrhyw le lle gellir defnyddio blodau addas. Gweler isod am y rhestr o'r blodau targed.
- Bydd angen i chi wyllo pryfed mewn ardal sgwâr 50cm gan 50cm – y ffordd hawsaf o ddiffinio hyn yw defnyddio cwadrat (gweler isod).
- Gofynnir i chi dynnu llun digidol o'ch rhywogaeth darged, a chyda rhai o'ch cyfrifon o leiaf, tynnu lluniau o enghreifftiau o'r mathau gwahanol o bryfed yr ydych chi wedi eu gweld.
- Argraffwch y ffurflen gofnodi, a gwnewch yn siŵr bod gennych bensel neu ben i gofnodi eich cyfrifon.
- Os oes angen, argraffwch y canllawiau adnabod ar gyfer planhigion a phryfed.
- Ar ôl y cyfrif, ychwanegwch eich canlyniadau i'r [ffurflen PoMS ar y wefan iRecord](#) (bydd angen i chi gofrestru ar iRecord i ddechrau).

Pa dywydd sydd yn addas?

Gellir gwneud Cyfrif FIT unrhyw adeg o'r dydd rhwng dechrau Ebrill a diwedd Medi, cyhyd â bod y tywydd yn sych ac yn gynnes:

- Os yw'r awyr yn glir (llai na'i hanner yn gymylog) isafswm y tymheredd ar gyfer cyfrif yw 13°C
- Os yw'r awyr yn gymylog (ei hanner neu fwy yn gymylog) isafswm y tymheredd ar gyfer cyfrif yw 15°C

Peidiwch â chynnal cyfrifon pan fydd y tymheredd islaw'r trothwyon. Gofynnir i chi roi gwybodaeth syml am yr haul a'r cysgod yn ystod eich cyfrif, a'r gwynt. Gweler y ffurflen gofnodi am fanylion.

Pa leoliad alla i ei ddefnyddio?

Gall eich lleoliad fod unrhyw le lle mae blodau i ddenu pryfed peillio. Mae gardd neu barc trefol yn addas, neu mewn ardaloedd mwy gwledig gallai fod ar dir fferm, neu warchodfa natur – unrhyw le lle mae blodau addas yn tyfu, lle mae gennych ganiatâd i fod yno, a lle mae'n ddiogel (gweler yr adran [Cadw'n ddiogel](#) isod).

Gallwch gynnal Cyfrif FIT fel ymarfer untro ar unrhyw safle addas, ond rydym yn awyddus i gael cyfrifon ar ddyddiadau ac amserau gwahanol ar yr un safle, felly mae mannau y gallwch fynd iddynt yn hawdd (fel gerddi neu barciau gerllaw) yn ddelfrydol ar gyfer hyn.

Y blodau targed

Pa flodau targed sydd angen i mi ddod o hyd iddynt?

Lle y bo'n bosibl, hoffem i chi ddod o hyd i un o'r 14 o rywogaethau blodau a restrir yn y tabl isod (gweler hefyd y canllaw adnabod ar wahân ar gyfer y rhywogaethau blodau targed). Nid oes rhaid i chi ddod o hyd i ardal arbennig o fawr o'r blodyn targed a gall y blodyn targed fod yn tyfu mewn ardal o'r un blodau i gyd, neu ymysg rhywogaethau eraill o flodau. Rydym yn gofyn i chi gofnodi faint o'ch blodau targed sydd yn eich cwadrat er mwyn ein helpu ni i ddeall faint o bryfed sydd wedi cael eu denu at y blodau.

Prif adeg blodeuo	Enw'r blodyn targed	Math o flodyn
Ebrill - Medi	Blodyn Menyn – rhywogaeth <i>Ranunculus</i>	blodau unigol
Ebrill - Medi	Dant y llew - <i>Taraxacum officinale</i>	pen blodyn
Ebrill - Mehefin	Draenen wen – <i>Crataegus</i>	blodau unigol
Ebrill - Medi	Marddanhadlen Wen - <i>Lamium album</i>	pigyn blodyn
Mai/Meh - Medi	Miaren (Mwyaren Ddu) - <i>Rubus fruticosus</i>	blodau unigol
Meh - Awst	Lafant (Seisnig) - <i>Lavandula angustifolia</i>	pigyn blodyn
Meh - Medi	Efwr - <i>Heracleum sphondylium</i>	wmbel
Meh - Medi	Y Bengaled (Gyffredin neu Fawr) - <i>Centarea nigra</i> neu <i>scabiosa</i>	pen blodyn
Meh - Medi	Llysiau'r Gingroen - <i>Senecio jacobaea</i> a pherthnasau	pen blodyn
Meh - Medi	Meillionen Wen - <i>Trifolium repens</i>	pen blodyn
Gorff - Medi	Buddleja	pigyn blodyn
Gorff - Medi	Grug - <i>Calluna vulgaris</i>	pigyn blodyn
Gorff – Medi	Ysgall - <i>Cirsium</i> neu <i>Carduus</i>	pen blodyn
Medi	Iorwg - <i>Hedera helix</i>	pen blodyn

Os na allwch ddod o hyd i'r blodau o'n rhestr yn eich lleoliad chi, mae'n iawn dewis blodyn arall sydd yn denu pryfed. Yn ddelfrydol bydd hwn yn flodyn o rywogaeth y byddwch yn ei hadnabod er mwyn i chi allu dweud wrthym ni pa rywogaeth a ddefnyddiwyd, ond os mai eich unig ddewis yw defnyddio blodyn nad ydych yn ei adnabod, gallwch ddweud hynny wrthym a thynnu llun. (Mae rhestr o flodau sydd yn denu nifer dda o beillwyr mewn Atodiad i'r canllaw blodau targed.)

Mae enwau rhai o'r planhigion ar ein rhestr o rywogaethau targed yn berthnasol i grwpiau o rywogaethau, er enghraifft "y bengaled" neu'r "ysgall". Mae'r rhain yn grwpiau o blanhigion tebyg o ran golwg sydd yn ddeniadol i beillwyr, felly gallwch ddewis unrhyw un o'r grŵp heb orfod poeni pa rywogaeth yn union ydyw. Fodd bynnag, os ydych yn gwybod y rhywogaeth ychwanegwch y wybodaeth i'r ffurflen gofnodi. Gweler y canllaw blodau targed am fwy o wybodaeth.

Ar gyfer pob Cyfrif FIT y byddwch yn ei wneud, ychwanegwch lun neu ddau o'ch blodyn targed. Bydd hyn yn ein galluogi i wirio rhywogaethau'r blodau a ddefnyddiwyd ar gyfer y cyfrifon. Ar gyfer rhywogaethau penodol bydd un llun o flodyn yn ddigonol, ond ar gyfer rhywogaethau llai amlwg, neu rywogaethau nad ydych yn siŵr ohonynt, tynnwch lun o'r blodyn ac ail lun o'r coesyn a'r dail.

Sut wyf yn defnyddio cwadrat?

Gofynnir i chi gyfrif y pryfed sy'n ymweld â'ch blodau targed o fewn ardal sgwâr 50cm gan 50cm. Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw sefydlu 'cwadrat' i ddiffinio'r sgwâr. Gellir



Defnyddio cwadrat gyda Marddanhadlen Wen fel blodyn targed

gwneud cwadrat gan ddefnyddio cardfwrdd gwydn neu weiren, neu wiail ac ati, wedi eu torri'n 50cm ar bob ochr. Neu gallwch wneud un gan ddefnyddio cortyn 2 fetr o hyd, gyda chlymau ynddo bob 50cm i'ch galluogi i'w drefnu'n sgwâr, neu gyda thâp wedi ei blygu (gweler isod). Mae hefyd yn bosibl prynu cwadratau 50cm (e.e. <http://www.nhbs.com/title/159625/q1-quadrat>).

Gellir gwneud pob ochr o'r cwadrat o strïbed o dâp, tua 54cm o hyd (i ganiatáu ar gyfer gorgyffwrdd ar y corneli).

Plygwch bob strïbed yn ôl ar ei hun fel nad yw'n ludiog bellach.



Torrwch strïbed bach o dâp i glymu'r corneli gyda'i gilydd.

Ar gyfer planhigion sydd yn tyfu ar neu'n agos at lefel y ddaear, gellir gosod y cwadrat dros yr ardal sy'n cael ei gyfrif, fel y gwelir yn y llun uchod. Ar gyfer planhigion/llwyni tal, fel y Ddraenen Wen neu'r lorwg, gellir rhoi'r cwadrat yn fertigol neu ar ongl gyfleus yn y llwyn, cyhyd â'i fod yn nodi'n glir yr ardal flodau sydd yn mynd i gael ei defnyddio ar gyfer eich cyfrif.

Faint o flodau?

Mae angen i ni wybod dau beth am eich blodau targed:

- Faint o'ch ardal 50×50cm y mae'r blodau targed yn ei feddiannu? – llai na hanner yr ardal, hanner, neu dros hanner
- Faint o'r blodau targed sydd yno o fewn yr ardal 50×50cm?


I ateb yr ail o'r cwestiynau hynny bydd angen i chi gyfrif y blodau, ond mae angen cyfrif blodau gwahanol mewn ffyrdd gwahanol. Yn dibynnu ar strwythur y blodau, gallai fod angen i chi gyfrif:




blodau unigol (e.e. y ddraenen wen - mae pob blodyn yn cyfrif fel un uned)



pennau blodau (lle mae llawer o flodau bychain o fewn pen blodyn mwy, e.e. dant y llew) – mae pob pen blodyn yn cyfrif fel un uned



wmbelau blodau (ar gyfer blodau sydd â blodau bach wedi eu grwpio'n 'wmbelau', fel ambarelau tu chwith, e.e. efwr) – mae pob wmbel yn cyfrif fel un uned



pigynnau blodau lle mae nifer o flodau bach wedi eu trefnu ar hyd coesyn (e.e. lafant) – mae pob pigyn yn cyfrif fel un uned

Mewn rhai achosion gall fod gennych lawer iawn o flodau i'w cyfrif (e.e. ardal ddwys o lafant). Os felly, mae'n iawn amcangyfrif, e.e. trwy gyfrif 'unedau' blodau mewn chwarter o'r cwadrat a lluosï â phedwar i gael cyfanswm ar gyfer y cwadrat cyfan. Cyfrwch flodau sydd yn gymharol ffres ac yn debygol o ddenu pryfed yn unig – nid ddylid cyfrif blodau 'pen marw' a phennau hadau.

Gweler y canllaw blodau targed ar wahân am fwy o wybodaeth.

Cyfrif pryfed

Sut wyf yn cyfrif ac yn adnabod y pryfed?

Dylai'r cyfrif ei hun barhau am ddeng munud – os oes gennych ffôn symudol gydag amserydd neu larwm, mae'n ffordd hawdd o sicrhau eich bod yn cyfrif am yr union amser cywir. Dylech sefyll yn ddigon agos at y blodau er mwyn gweld y pryfed sy'n ymweld yn hawdd, ond ceisiwch beidio pwyso dros ben yr ardal flodau am y gall hyn atal pryfed rhag ymweld.

Yn ystod y deng munud, defnyddiwch dali (e.e. ~~||||~~ ||) ar eich ffurflen gofnodi i gyfrif pob pryfyn sy'n glanio ar un o'r blodau yn eich rhywogaeth darged yn yr ardal sgwâr 50x50cm:

- Cyfrwch y pryfed sydd yn **glanio ar** flodau yn eich rhywogaeth darged, **o fewn** yr ardal yn unig
- Dylid cyfrif pryfed bychain (hyd at 3mm o hyd, yn cynnwys chwilod paill) fel "Pryfed bach o dan 3mm o hyd" – nid oes angen nodi pa grŵp o bryfed y mae'r pryfed hyn yn perthyn iddynt
- Dylid cyfrifo pryfed heb eu hadnabod dros 3mm o hyd, yn y categori "Pryfed eraill"
- Anwybyddwch bryfed nad ydynt yn glanio, neu sy'n glanio ar flodau rhywogaethau eraill, neu sy'n glanio ar ddail
- Anwybyddwch unrhyw bryfed cop, malwod neu bethau eraill nad ydynt yn bryfed a welir ar flodau weithiau
- Weithiau gallwch ddod o hyd i bryfed yn 'cuddio' ar waelod blodau, ond ni ddylid cyfrif y rhain oni bai eich bod wedi eu gweld yn glanio neu'n symud dros y blodyn yn ystod eich 10 munud

Gofynnir i chi roi pryfed mewn grwpiau gwahanol (e.e. cacwn, pryfed hofran), ac nid oes angen i chi ddweud pa rywogaethau penodol yr ydych wedi eu gweld. Nid yw rhoi pryfed mewn grwpiau bob amser yn syml: mae rhai yn eithaf amlwg (er enghraifft mae llawer o bobl yn gyfarwydd â chacynen), ond gall eraill fod yn anodd (fel y pryfed hofran llai a'r gwenyn unigol). Cyfeiriwch at ein canllaw adnabod pryfed am awgrymiadau ynghylch beth i edrych amdano.

Rydym eisiau i chi gyfrif yr holl bryfed y byddwch yn eu gweld, ond mae'n debygol iawn y byddwch yn gweld rhai nad ydych yn gallu eu rhoi mewn un grŵp neu'r llall yn hyderus. Mae hynny'n iawn, a cheir dau gategori ar gyfer "pryfed eraill", lle gallwch gyfrif pryfed na allwch eu hadnabod. Ceir un categori ar gyfer "Pryfed bach o dan 3mm o hyd", lle gallwch ychwanegu amcangyfrifon ar gyfer rhai o'r creaduriaid bychain sy'n ymweld â'ch blodau targed. Gallai'r rhain gynnwys chwilod paill er enghraifft, sydd yn chwilod bach du, sgleiniog, ond mewn gwirionedd, gellir cyfrif unrhyw bryfed bach yn y categori hwn. Yna ceir categori arall "Pryfed eraill" ar gyfer unrhyw beth nad ydych yn gallu ei adnabod neu'n ansicr ohono.

Er mwyn cael cyfansymiau cyson, mae'n bwysig eich bod yn cyfrif BOB pryfyn sy'n ymweld â'r blodau targed, hyd yn oed os yw hynny'n golygu rhoi llawer i mewn i'r categori "Arall"!

Ceisiwch gyfrif pob pryfyn unigol unwaith yn unig. Er enghraifft, os yw cacynen yn hedfan i mewn i'ch cwadrat ac yn glanio ar flodyn targed, mae hynny'n cyfrif fel un gacynen. Os yw wedyn yn symud i flodyn arall heb y cwadrat, **nid** yw hynny'n cyfrif fel ail gacynen. Ond os oes cacynen arall yn hedfan i mewn o'r tu allan i'r cwadrat mae hynny **yn** cael ei gyfrif fel ail gacynen.

Os oes gennych lawer o bryfed yn hedfan i mewn ac allan o'ch cwadrat, gall fod yn anodd iawn penderfynu a ydych yn gweld yr un pryf drosodd a throsodd, a gwyddom na fydd y cyfrifon bob amser yn berffaith. Yr unig beth yr ydym yn gofyn yw eich bod yn gwneud eich gorau i gyfrif pob pryf sydd yn ymweld â'ch blodau targed, ac i gyfrif pob pryf unigol unwaith yn unig, yn ystod y deng munud.



Ar gyfer yr efwr hwn, eich tali fyddai wyth pryfyn hofran a dwy gleren arall. Os gwnaeth un neu fwy o'r rhain ymweld â blodyn arall yn eich ardal darged, ni ddylid eu cyfrif yr ail waith, ond os yw pryfyn 'newydd' yn glanio ar y blodyn, byddai'n cael ei gyfrif. (Llun gan Martin Harvey.)

Sut mae'r adnabyddiaeth yn cael ei wirio?

Mae pawb yn gwneud camgymeriadau achlysurol wrth adnabod pryfed, a bydd hyn yn cael ei ystyried wrth ddadansoddi'r data. I'n helpu ni i ganiatáu ar gyfer cam-adnabod, rydym yn gofyn i chi gymryd rhan mewn dau weithgaredd ychwanegol:

- Ar ôl i chi orffen eich cyfrif, os yn bosibl, treuliwch ychydig funudau yn tynnu lluniau o enghreifftiau o'r grwpiau pryfed gwahanol yr ydych wedi eu gweld. Nid oes angen tynnu llun o bob rhywogaeth wahanol, ond os gallwch dynnu un neu ddau lun i ddangos enghreifftiau ar gyfer pob grŵp o bryfed yr ydych yn eu cofnodi, bydd hynny'n ddefnyddiol iawn. Nid oes angen tynnu lluniau bob tro y byddwch yn gwneud cyfrif FIT, ond os ydych yn gwneud llawer o gyfrifon, byddai'n dda cael rhai lluniau ar gyfer rhai o'r cyfrifon o leiaf.
- Yn nes ymlaen yn y flwyddyn, byddwn yn anfon gwybodaeth atoch am gwis ar-lein yr ydym yn gofyn i bob cyfranogwr Cyfrif FIT ei gwblhau. Bydd hyn yn ein galluogi ni i ddadansoddi canlyniadau'r cyfrif yn fwy cywir, gan ganiatáu ar gyfer unrhyw rywogaethau 'anodd' sy'n cael eu cyfrif yn y categori anghywir.

Anfon data eich cyfrif i mewn

I anfon eich data i mewn, bydd angen i chi gofrestru gyda'r system gofnodi ar-lein iRecord. Os nad oes gennych gofrestrriad iRecord yn barod, ewch i www.brc.ac.uk a chliciwch "Creu cyfrif newydd".



Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi ar iRecord, bydd angen i chi fynd i ffurflen gofnodi Cyfrif FIT, sydd yn:

www.brc.ac.uk/irecord/poms-fit-count

Dylai'r ffurflen ar-lein gyd-fynd â'r ffurflen cofnodi maes, felly yr unig beth sydd angen i chi ei wneud yw trosglwyddo'r wybodaeth y gwnaethoch ei hysgrifennu i lawr yn y maes ar y ffurflen ar-lein. (Mae dau

gwestiwn ychwanegol dewisol ar waelod y ffurflen ar-lein sydd yn gofyn am eich adborth am gynnal yr arolwg.)

A wyf yn gallu cofnodi unrhyw rywogaethau unigol yr wyf yn eu hadnabod?

Nid oes angen i chi gofnodi rhywogaethau penodol ar gyfer y Cyfrif FIT ei hun, mae'r ffocws yma ar y grwpiau o rywogaethau. Ond os ydych wedi adnabod unrhyw bryfed ar lefel rhywogaeth, naill ai yn ystod y cyfrif neu ar unrhyw adeg pan oeddech yn eich lleoliad, rydym yn eich annog i anfon cofnodion i'r cynlluniau cofnodi. Rydym mewn cysylltiad â chynlluniau cofnodi fel Bees, Wasps and Ants Recording Society (BWARS), yr Hoverfly Recording Scheme (HRS), a Butterfly Conservation (sydd yn bartner prosiect). Mae cofnodion rhywogaethau sy'n cael eu hanfon at y cynlluniau hyn yn dod ar gael i'w dadansoddi mewn mannau eraill yn y Cynllun Monitro Peillwyr.

Er mwyn defnyddio cofnodion ar gyfer cadwraeth ac ymchwil, mae angen i'r cynlluniau cofnodi wirio bod y cofnodion rhywogaethau wedi cael eu hadnabod yn gywir, a man cychwyn da yw cael llun o'r rhywogaethau yr ydych yn eu cofnodi, lle mae hyn yn bosibl. Ni ellir adnabod yr holl rywogaethau o'r lluniau, ond gallant helpu i gadarnhau eich adnabyddiaeth yn aml.

Gellir ychwanegu cofnodion a lluniau o rywogaethau sy'n cael eu hadnabod i brif wefan iRecord (www.brc.ac.uk/irecord/). Os oes gennych luniau o bryfed heb eu hadnabod, gallwch yn aml gael cymorth ar Facebook, Twitter neu wefan iSpot. Am fwy o wybodaeth am adnabod rhywogaethau a sut i ymuno â gweithgareddau'r cynllun cofnodi, gweler gwefan PoMS (www.ceh.ac.uk/pollinator-monitoring).

Sawl cyfrif y dylwn ei wneud?

Mae pob cyfrif, hyd yn oed un unigol, yn ddefnyddiol i'r prosiect a gellir ei gynnwys yn ein dadansoddiad, felly peidiwch anghofio ychwanegu eich canlyniadau i'n ffurflen gofnodi!

Os gallwch wneud cyfrifon lluosog yn ystod y flwyddyn, byddai hynny'n rhagorol, a bydd yn ychwanegu gwerth i'ch data pan fyddwn yn ei ddadansoddi. Yn ddelfrydol, byddem yn hoffi cyfrifon sy'n cael eu hailadrodd dros amser yn yr un lleoliad (neu gerllaw). Gallwch ddefnyddio blodau gwahanol ar adegau gwahanol o'r flwyddyn (ac mae'n iawn symud y cwadrat o amgylch ardal fach er mwyn targedu blodau gwahanol).

Os ydych yn gallu cynnal cyfrifon mewn sawl lleoliad, mae hynny'n ddefnyddiol iawn hefyd, ond lle y bo'n bosibl, byddai'n well gennym fwy o gyfrifon mewn llai o leoliadau, yn hytrach nag un cyfrif mewn sawl lleoliad. Os ydych yn gallu gwneud un cyfrif y mis, neu un yr wythnos, trwy gydol y tymor o fis Ebrill i fis Medi, byddai hynny'n rhoi set dda iawn o ddata i'w hychwanegu at y prosiect.

Cadw'n ddiogel

Fel gwirfoddolwr, nid oes unrhyw reidrwydd arnoch i gymryd rhan na pharhau gyda'r arolwg hwn. Mae'r gwirfoddolwyr yn gyfrifol am eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, ac ni ddylent roi eu hunain mewn sefyllfa a allai eu rhoi nhw, neu eraill, mewn perygl. Ni ddylech wneud unrhyw weithgaredd os oes gennych bryderon am eich iechyd a'ch diogelwch chi neu eraill. Os oes gennych unrhyw bryderon o'r fath, dylech roi'r gorau i'r cyfrif.

Wrth ddewis lleoliad ar gyfer Cyfrif FIT, rydym yn gofyn i chi gadw at ardaloedd sydd yn hygyrch i'r cyhoedd, neu ar hyd llwybrau troed cyhoeddus, neu leoliadau lle mae gennych drefniadau mynediad gyda pherchennog y tir.

Gallwch gynnal y cyfrif mewn unrhyw leoliad gyda blodau addas, ac nid oes angen chwilio am safleoedd anghysbell. Ond os ydych yn teithio oddi cartref ar gyfer eich cyfrif, gadewch nodyn o'ch lleoliad gyda pherson cyfrifol. Dylai hyn gynnwys: dyddiad ac amser ymweliad arolygu, amser disgwyliedig gadael y safle a dychwelyd adref, a manylion adnabod y cerbyd. Dylid dweud wrth y person yr ydych yn rhoi'r manylion

hyn iddynt â phwy i gysylltu os na fyddwch yn dychwelyd a pha amser y dylid eu hysbysu. Os yn bosibl, peidiwch gweithio ar eich pen eich hun. Fe'ch cynghorir i gario ffôn symudol wedi ei gwefru'n llawn rhag ofn bydd argyfwng. Cyn gwneud unrhyw weithgaredd arolygu, dylai pob syrffwr ystyried y peryglon iechyd a diogelwch penodol sydd yn gysylltiedig â'u safleoedd arolygu unigol ac a yw eu hamgylchiadau unigol a'u cyflwr meddygol yn eu gwneud yn agored i beryglon penodol. Meddyliwch pa ragofalon sydd eu hangen i leihau'r risg, yn cynnwys gwisgo esgidiau priodol a diogelu rhag yr haul.

Pwy sydd yn trefnu'r prosiect hwn?

Mae Cyfrif FIT yn rhan o'r Cynllun Monitro Peillwyr (PoMS) o fewn y Bartneriaeth Monitro ac Ymchwil Peillwyr y DU, wedi ei gydlyn gan y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg (CEH). Caiff ei ariannu ar y cyd gan Defra, Llywodraeth Cymru a'r Alban, JNCC a phartneriaid prosiect, yn cynnwys CEH, y Bumblebee Conservation Trust, Butterfly Conservation, y British Trust for Orthithology, Hymettus, Prifysgol Reading a Phrifysgol Leeds. Nod PoMS yw darparu data sydd ei angen ar gyflwr peillwyr pryfed y DU, yn arbennig gwynyn gwyllt a phryfed hofran, a'u rôl yn cefnogi ffermio a bywyd gwyllt.

Am fwy o wybodaeth am PoMS ewch i: www.ceh.ac.uk/pollinator-monitoring

Beth sydd yn digwydd i'm data?

Trwy ychwanegu canlyniadau eich cyfrif i iRecord, rydych yn cytuno eich bod:

- Yn derbyn telerau defnyddio iRecord (www.brc.ac.uk/irecord/terms_of_use)
- Yn derbyn telerau ychwanegol y prosiect hwn:
 - Bydd eich manylion cyswllt yn cael eu cadw ar gronfa ddata yn CEH, ac ni fyddant yn cael eu trosglwyddo i drydydd partïon. Fodd bynnag, gall Partneriaeth Monitro ac Ymchwil Peillwyr y DU ddefnyddio'r manylion hyn i gysylltu â chi os oes ymholiad am y data yr ydych wedi ei roi, ac i anfon gwybodaeth am agweddau amrywiol o'r prosiect.
 - Er mwyn i'r prosiect hwn gyflawni ei nodau, mae'n rhaid i'r data sy'n cael ei gyfrannu fod ar gael i'r bartneriaeth ymchwil ei ddefnyddio, ei addasu a'i ailddosbarthu i ymchwil wyddonol bellach. Felly, os byddwch yn cyfrannu at y Cynllun Monitro Peillwyr, rydych yn rhoi caniatâd i Bartneriaeth Monitro ac Ymchwil Peillwyr y DU ddefnyddio eich cyfraniadau ym mha bynnag ffordd sydd ei angen i ddatblygu'r nod hon, gan ymddiried ynom ni i wneud y peth iawn gyda'ch data. Fodd bynnag, rydych yn rhoi'r caniatâd hyn i ni yn ddi-egsgliwsif, sy'n golygu eich bod chi eich hun yn dal yn berchen ar eich cyfraniad.



Prosiect Defra BE0125/ NEC06214: Sefydlu Partneriaeth Monitro ac Ymchwil Peillwyr y DU
Dogfen fersiwn 3.0 Chwefror 2018

Noddir y cyfieithiad Cymraeg trwy garedigrwydd prosiect Tyfu'r Dyfodol, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

